

Adroddiad Arolygu o Bractis Deintyddol Cyffredinol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

Practis The Hawkins, Bwrdd Iechyd
Prifysgol Bae Abertawe

Dyddiad yr arolygiad: 25 Tachwedd 2025

Dyddiad cyhoeddi: 25 Chwefror 2026



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein [gwefan](http://www.agic.org.uk) neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: AGIC@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwirio bod gwasanaethau gofal iechyd yn cael eu darparu mewn ffordd sy'n mwyafu iechyd a llesiant pobl.

Ein gwerthoedd

Rydym yn rhoi pobl wrth wraidd yr hyn a wnawn. Rydym yn:

- Annibynnol - rydym yn ddiuedd, yn penderfynu pa waith rydym yn ei wneud a lle rydym yn ei wneud
- Gwrthrychol - rydym yn rhesymol ac yn deg ac yn gweithredu ar sail tystiolaeth
- Pendant - rydym yn gwneud dyfarniadau clir ac yn cymryd camau i wella safonau gwael ac amlygu'r arferion da rydym yn dod ar eu traws
- Cynhwysol - rydym yn gwerthfawrogi ac yn annog cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy ein gwaith
- Cymesur - rydym yn ystwyth ac yn gwneud ein gwaith lle mae o'r pwys mwyaf

Ein nod

Bod yn llais dibynadwy sy'n ysgogi gwelliant mewn gofal iechyd ac sy'n dylanwadu arno

Ein blaenoriaethau

- Byddwn yn canolbwyntio ar ansawdd y gofal iechyd a ddarperir i bobl a chymunedau wrth iddynt gyrchu gwasanaethau, eu defnyddio a symud rhyngddynt
- Byddwn yn addasu ein dull gweithredu i sicrhau ein bod yn ymatebol i risgiau i ddiogelwch cleifion sy'n dod i'r amlwg
- Byddwn yn cydweithio er mwyn ysgogi'r gwaith o wella systemau a gwasanaethau ym maes gofal iechyd
- Byddwn yn cefnogi ac yn datblygu ein gweithlu i'w galluogi nhw, a'r sefydliad, i gyflawni ein blaenoriaethau.



Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom	5
2.	Crynodeb o'r arolygiad	6
3.	Yr hyn a nodwyd gennym	9
	• Ansawdd Profiad y Claf	9
	• Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol.....	13
	• Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth	17
4.	Y camau nesaf	20
	Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad	21
	Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith	22
	Atodiad C - Cynllun gwella.....	23

1. Yr hyn a wnaethom

Ceir manylion llawn am y ffordd rydym yn arolygu'r GIG ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru ar ein [gwefan](#).

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Bractis The Hawkins, Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe ar 25 Tachwedd 2025.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys un o arolygwyr gofal iechyd AGIC ac adolygydd cymheiriaid deintyddol.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom wahodd y cleifion i gwblhau holiadur er mwyn dweud wrthym am eu profiad o ddefnyddio'r gwasanaeth. Cwblhawyd cyfanswm o 12 o holiaduron. Gwnaethom hefyd siarad â'r staff a oedd yn gweithio yn y gwasanaeth yn ystod ein harolygiad. Mae'r adborth a rhai o'r sylwadau a gafwyd yn ymddangos yn yr adroddiad.

Lle bo dyfyniadau yn y cyhoeddiad hwn, mae'n bosibl eu bod wedi cael eu cyfieithu o'u hiaith wreiddiol.

Nodwch fod canfyddiadau'r arolygiad yn ymwneud â'r adeg y cynhaliwyd yr arolygiad.

2. Crynodeb o'r arolygiad

Ansawdd Profiad y Claf

Crynodeb cyffredinol:

Dywedodd y cleifion eu bod yn cael profiad cadarnhaol ym Mhractis The Hawkins, gyda'r rhan fwyaf yn dweud bod y gwasanaeth yn 'dda iawn' ac yn ei chael hi'n 'hawdd iawn' trefnu apwyntiadau. Dywedwyd bod yr amgylchedd yn 'lân iawn', ac roedd y cleifion yn teimlo eu bod yn cael eu cynnwys mewn penderfyniadau am eu gofal. Gwelsom fod y rhyngweithio rhwng y cleifion a'r staff yn llawn parch, ac roedd pawb a ymatebodd i arolwg cleifion AGIC yn 'cytuno'n gryf' neu'n 'cytuno' eu bod yn cael eu trin ag urddas a pharch.

Roedd amrywiaeth o wybodaeth hybu iechyd ar gael i'r cleifion. Roedd dogfennau gwybodaeth allweddol ar gael yn Gymraeg a Saesneg ac roedd modd darparu gwybodaeth am y practis mewn print bras ar gais.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- cael gwared ar hen blac a sicrhau bod yr holl wybodaeth y gall y cyhoedd ei gweld yn adlewyrchu'r tîm deintyddol cyfredol yn gywir.
- sicrhau preifatrwydd y cleifion yn y ddeintyddfa ar y llawr gwaelod drwy wneud yn siŵr na all neb weld i mewn o'r tu allan i'r adeilad yn ystod triniaethau.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd y staff yn groesawgar, ac yn helpu i wneud i'r cleifion deimlo'n gyfforddus
- Roedd y practis yn darparu amrywiaeth o wybodaeth hybu iechyd sy'n berthnasol i iechyd y geg a phynciau iechyd eraill.
- Roedd y cyfleusterau wedi cael eu hadnewyddu'n ddiweddar.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Crynodeb cyffredinol:

Roedd cyfarpar addas yn y practis gyda gweithdrefnau rheoli risg a rheoli heintiau cadarn ar waith. Roedd amserlen lanhau gadarn a chyfleusterau dihalogi addas yn cefnogi trefniadau glanhau effeithiol. Roedd y staff yn ymwybodol o'r camau gweithredu i'w cymryd mewn argyfwng ac mewn perthynas â diogelu.

Roedd cyfarpar miniog addas yn cael ei ddefnyddio ond roedd angen asesiadau risg a diweddariadau pellach i'r gweithdrefnau er mwyn diogelu staff a chontractwyr rheoli gwastraff yn llawn.

Roedd cofnodion y cleifion yn cael eu cadw ar ffurf electronig o fewn system ddiogel ac ar y cyfan, ystyriwyd eu bod yn briodol ac yn unol â'r safonau, ond nodwyd rhai meysydd i'w gwella. Roedd llwybrau clir ar waith ar gyfer atgyfeiriadau i mewn i'r practis ac allan o'r practis, gan gynnwys trefniadau dilynol priodol.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Cwblhau asesiad risg pellach ar gyfer defnyddio chwistrelli a sicrhau y caiff cynwysyddion offer miniog eu rheoli'n briodol
- Sicrhau bod y ffeil Diogelu rhag Ymbelydredd yn cynnwys yr holl wybodaeth ofynnol
- Sicrhau bod copi o'r hanes meddygol cychwynnol, wedi'i lofnodi gan y deintydd a'r claf, ar gael yng nghofnodion y cleifion.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd polisïau cynhwysfawr ar waith ar gyfer iechyd a diogelwch, parhad busnes a rheoli meddyginiaethau ac roedd y staff yn ymwybodol ohonynt
- Roedd yr holl gyfarpar yn addas ar gyfer ei ddiben bwriadedig ac roedd naill ai'n newydd neu'n cael ei gynnal a'i gadw'n llawn.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Crynodeb cyffredinol:

Gwelsom fod strwythur rheoli clir ar waith a dywedodd y staff wrthym eu bod yn teimlo'n gadarnhaol am y diwylliant sy'n cael ei fodelu gan yr arweinwyr deintyddol newydd. Roedd arwydd 'Dywedoch chi, gwnaethom ni' wedi'i arddangos yn yr ardal aros a oedd yn rhoi gwybod am y camau roedd y practis wedi'u cymryd mewn ymateb i adborth am hygyrchedd apwyntiadau a'r adeilad.

Roedd hi'n amlwg bod yr holl hyfforddiant gorfodol wedi'i gwblhau ac roedd y staff hefyd wedi cael cynnig cyfleoedd hyfforddiant ychwanegol. Roedd prosesau sefydlu ac arfarnu priodol ar waith yn ogystal â threfniadau i sicrhau bod rhwymedigaethau proffesiynol gweithwyr deintyddol proffesiynol cofrestredig yn cael eu cynnal. Gwnaethom nodi fod y practis yn ymgysylltu mewn modd rhagweithiol â dangosfyrddau perfformiad a dangosfyrddau sicrhau ansawdd allanol ar gyfer darpariaeth y GIG a darpariaeth gwasanaethau preifat.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Sicrhau bod yr holl bolisïau a gweithdrefnau yn defnyddio dull rheoli fersiynau, eu bod yn cael eu diweddarau'n rheolaidd a'u personoli i'r practis.
- Cael dau eirida ar gyfer aelodau newydd o staff fel mater o drefn a chwblhau asesiadau risg ar gyfer staff presennol heb eiridaon.

- Ymgymryd ag archwiliadau Mynediad i Bobl Anabl rheolaidd a rhoi unrhyw addasiadau rhesymol ychwanegol a nodir ar waith.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Diwylliant tîm cadarnhaol yn y practis gyda dull cyfathrebu hwylus rhwng y staff a'r rheolwyr ac er mwyn gwrandao ar safbwyntiau'r cleifion a gweithredu arnynt.
- Roedd ffeiliau'r staff yn dangos tystiolaeth o sefydlu, arfarnu a datblygiad proffesiynol parhaus.

3. Yr hyn a nodwyd gennym

Ansawdd Profiad y Claf

Adborth gan gleifion

Ar y cyfan, roedd yr ymatebion a gafwyd i holiadur cleifion AGIC yn gadarnhaol. Nododd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr fod y gwasanaeth roeddent yn ei gael gan y practis hwn yn 'dda iawn' a'i bod hi'n 'hawdd iawn' cael apwyntiad. Dywedodd pob un o'r ymatebwyr fod y practis yn 'lân iawn'.

Roedd pob un o'r ymatebwyr yn gwybod sut i gysylltu â gwasanaethau deintyddol y tu allan i oriau yn achos problemau brys ac yn teimlo eu bod yn cael eu cynnwys yn addas mewn penderfyniadau sy'n ymwneud â'u gofal.

Roedd sylwadau'r cleifion yn canmol y staff a'r gwasanaeth a oedd yn cael ei ddarparu. Ymhlith y sylwadau roedd y canlynol:

“Croesawgar iawn ac yn rhoi digon o wybodaeth. Gwnaethant lwyddo i wneud i mi deimlo'n gyfforddus iawn wrth gael triniaethau.”

“Mae'r gwasanaeth a ddarperir yn ddi-fai.”

“Gofal eithriadol...claf hapus.”

Yn canolbwyntio ar yr unigolyn

Hybu iechyd a gwybodaeth i gleifion

Roedd taflenni gwybodaeth sy'n berthnasol i hybu iechyd y geg, yn ogystal â phynciau mwy cyffredinol fel brechu rhag y fflw, yn cael eu harddangos yn yr ardal aros. Roedd gwybodaeth glir yn esbonio pwysigrwydd ymweliadau deintyddol rheolaidd yn cael ei darparu ar y wefan.

Gwelsom fod gwybodaeth berthnasol mewn perthynas â thaliadau deintyddiaeth y GIG a deintyddiaeth breifat i'w gweld yn yr ardal aros.

Roedd enwau'r gweithwyr deintyddol proffesiynol a'u rhifau cofrestru â'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol i'w gweld yn yr ardal aros, yn y daflen wybodaeth i gleifion ac ar y wefan. Fodd bynnag, gwnaethom nodi bod plac ar gyfer llawfeddyg deintyddol blaenorol i'w weld o hyd y tu allan i'r practis.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig gael gwared ar yr hen blac a sicrhau bod yr holl wybodaeth y gall y cyhoedd ei gweld yn adlewyrchu'r tîm deintyddol cyfredol yn gywir.

Gofal urddasol a pharchus

Roedd pob trafodaeth a glywsom rhwng staff y practis a'r cleifion yn barchus. Roedd mesurau ar waith i atal sgysiau rhwng staff y dderbynfa a chleifion rhag cael eu clywed gan bobl eraill yn yr ardal aros. Roedd pawb a ymatebodd i holiadur cleifion AGIC yn 'cytuno'n gryf' neu'n 'cytuno' eu bod yn cael eu trin ag urddas a pharch. Gwelsom fod cytundeb cyfrinachedd ar waith a oedd wedi cael ei adolygu a'i lofnodi gan y staff.

Roedd gan y deintyddfeydd ddrysau solet addas er mwyn sicrhau preifatrwydd i'r cleifion yn ystod ymgynghoriadau a thriniaethau. Fodd bynnag, gwnaethom nodi nad oedd gorchudd ar ffenestr y ddeintyddfa ar y llawr gwaelod a oedd yn golygu bod modd gweld cleifion a oedd yn cael triniaeth o faes parcio'r staff y tu allan.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig gymryd camau i sicrhau preifatrwydd y cleifion yn y ddeintyddfa ar y llawr gwaelod drwy wneud yn siŵr na all neb weld i mewn o'r tu allan i'r adeilad yn ystod triniaethau.

Gwelsom fod y naw egwyddor graidd a baratowyd gan y Cyngor Deintyddol Cyffredinol i'w gweld yn ardal aros y cleifion.

Gofal wedi'i deilwra at yr unigolyn

Gallai'r cleifion drefnu apwyntiadau dros y ffôn, drwy e-bost neu wyneb yn wyneb. Gellid gofyn am apwyntiadau ar adeg a oedd yn gweddu i'r claf. Roedd manylion cyswllt y tu allan i oriau wedi'u harddangos y tu allan i'r practis, yn y Datganiad o Ddiben a oedd wedi'i gyhoeddi ar wefan y practis ac roeddent i'w clywed ar neges peiriant ateb y practis.

Amserol

Gofal amserol

Gwelsom fod y practis yn darparu gofal deintyddol rheolaidd, brys ac mewn argyfwng. Roedd meini prawf ar waith i helpu staff y dderbynfa i weithredu'r broses frysbenno gychwynnol er mwyn deall anghenion y claf a'r amserlenni priodol ar gyfer apwyntiadau. Roedd y broses frysbenno yn cael ei dogfennu'n llawn er mwyn i'r gweithwyr deintyddol proffesiynol allu deall anghenion y cleifion ac ail-flaenoriaethu os oedd angen.

Cawsom wybod y byddai triniaethau'n cael eu trefnu yn unigol neu fel cwrs cyflawn fel y rhagnodwyd gan y gweithwyr deintyddol proffesiynol ac fel y cytunwyd gan y cleifion. Roedd y practis yn darparu negeseuon atgoffa drwy e-bost a thros y ffôn i

helpu'r cleifion i gadw apwyntiadau a drefnwyd ar eu cyfer. Roedd sgysiau atgoffa hefyd yn cael eu defnyddio i gadarnhau nad oedd cleifion yn dioddef o salwch anadlol neu salwch dros dro arall er mwyn helpu i atal a rheoli heintiau.

Dywedodd y staff wrthym y byddai'r cleifion yn cael gwybod mewn da bryd pe bai apwyntiadau yn rhedeg yn hwyr, ac y byddent yn cael cynnig apwyntiad arall pe bai angen.

Teg

Cyfathrebu ac iaith

Gwelsom fod dogfennau allweddol, gan gynnwys naw egwyddor y Cyngor Deintyddol Cyffredinol, cofrestriad AGIC, gwybodaeth am gleifion y practis a'r Datganiad o Ddiben a gwybodaeth gyfeirio yn nodi rhifau cyswllt mewn argyfwng a gweithdrefnau Gweithio i Wella yn cael eu darparu yn Gymraeg a Saesneg.

Dywedwyd wrthym fod dau aelod o'r staff yn gallu siarad Cymraeg. Roedd arwydd 'laith Gwaith' yn cael ei arddangos yn yr ardal aros. Gwnaethom awgrymu y dylai'r staff sy'n gallu siarad Cymraeg hefyd wisgo bathodynau i dynnu sylw'r cleifion at hyn. Dywedodd y staff eu bod yn ymwybodol fod cymorth ar gael gan y bwrdd iechyd i gyflawni'r Cynnig Rhagweithiol. Byddai llinell iaith yn cael ei defnyddio i helpu i gyfathrebu â chleifion os oedd angen a byddai proses ar gyfer cofnodi dewisiadau iaith yng nghofnodion y cleifion fel mater o drefn yn golygu bod modd trefnu cymorth cyfathrebu ychwanegol cyn apwyntiadau.

Roedd gwybodaeth am y practis wedi'i hysgrifennu mewn iaith glir ond dim ond mewn fformat bach roedd wedi'i hargraffu. Cawsom wybod y gallai copïau print bras gael eu darparu ar gais. Gwnaethom drafod y gallai dolen sain hefyd fod yn adnodd defnyddiol yn y practis.

Hawliau a chydraddoldeb

Gwelsom fod cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn cael eu hyrwyddo drwy bolisiau'r practis a hyfforddiant perthnasol i'r staff.

Roedd cyfleusterau'r practis wedi cael eu hadnewyddu'n ddiweddar, gan sicrhau mynediad hollol wastad ym mhob rhan o'r llawr gwaelod, deintyddfa fawr ar y llawr gwaelod a chanllawiau cydio yn y toiled. Roedd ramp ar gael wrth y fynedfa flaen. Fodd bynnag, roedd un claf yn teimlo ei fod yn rhy serth iddo ymdopi ag ef yn annibynnol. Nododd y practis hefyd fod cyfyngiadau lle yn golygu nad oedd y toiled yn hygyrch i bobl sy'n defnyddio cadair olwyn. Ystyriwyd bod y seddau a oedd ar gael yn yr ardal aros yn addas ar gyfer amrywiaeth o anghenion a bod digon ohonynt.

Gwelsom fod staff y dderbynfa yn trin sgysiau hanes meddygol mewn modd cynnil ac roedd posteri i atgoffa'r cleifion i ddarparu'r wybodaeth hon er mwyn sicrhau gofal deintyddol priodol. Dywedwyd wrthym y byddai unrhyw newidiadau i enwau, rhagenwau neu fanylion personol eraill hefyd yn cael eu cofnodi yn nodiadau'r cleifion er mwyn helpu wrth gyfathrebu.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Diogel

Rheoli risg

Gwelsom fod safle'r practis yn lân, yn ddiogel ac mewn cyflwr da y tu mewn a'r tu allan. Clywsom gleifion yn rhoi adborth cadarnhaol am y gwaith adnewyddu diweddar.

Roedd asesiad risg iechyd a diogelwch cynhwysfawr, cynllun parhad busnes a pholisïau cynnal a chadw'r adeilad ar waith. Dywedodd y staff y byddent yn gwybod beth i'w wneud mewn argyfwng.

Roedd polisi addas ar gyfer Rheoli Sylweddau Peryglus i lechyd ar waith. Cafodd ei weithredu'n llawn erbyn diwedd yr arolygiad. Ceir rhagor o wybodaeth am y materion a nodwyd gennym, a'r camau a gymerwyd gan y gwasanaeth, yn Atodiad A.

Gwnaethom edrych ar ddogfennau a oedd yn nodi bod cyfarpar trydan, nwy a diogelwch tân naill ai'n newydd neu fod gwiriadau diogelwch dilys a chyfredol ar eu cyfer. Gwelsom dystiolaeth i ddangos bod ymarferion tân a phrofion mewnol o'r cyfarpar canfod tân yn cael eu cynnal yn rheolaidd. Roedd drysau tân newydd gael eu gosod ac roeddent mewn cyflwr addas i helpu i sicrhau diogelwch pe bai tân, ac roedd y llwybrau dianc rhag tân a'r cyfarwyddiadau i'w dilyn yn achos tân i'w gweld yn glir.

Gwelsom fod poster yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch a thystysgrifau Yswiriant Atebolrwydd Cyhoeddus ac Atebolrwydd Cyflogwr y practis yn cael eu harddangos yn briodol.

Atal a rheoli heintiau a dihalogi

Gwelsom fod polisïau a gweithdrefnau atal a rheoli heintiau priodol ar waith a bod amserlen lanhau gadarn yn cefnogi arferion glanhau effeithiol. Roedd y cyfleusterau dihalogi yn addas ac roedd peiriannau'n cael eu gwasanaethu fel y bo'n ofynnol. Roedd y staff wedi cwblhau hyfforddiant atal a rheoli heintiau a dihalogi priodol.

Gwelsom fod y practis yn defnyddio cyfarpar deintyddol priodol, ei fod mewn cyflwr da a bod digon o eitemau ar gael fel bod modd eu dihalogi ar ôl eu defnyddio. Roedd offer di-haint yn cael eu gosod mewn bagiau unigol a'u cadw mewn droriau. Cadarnhawyd bod byriau untro yn cael eu gwaredu mewn modd priodol.

Roedd cyfarpar miniog addas yn cael ei ddefnyddio ac roedd y staff yn ymwybodol o sut i gael gafael ar wasanaethau iechyd galwedigaethol y bwrdd iechyd pe byddent yn cael anaf a achosir gan nodwydd. Fodd bynnag, roedd angen asesiad risg ar gyfer y math penodol o chwistrellau oedd yn cael eu defnyddio.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig gwblhau asesiad risg ar gyfer y math penodol o chwistrellau sy'n cael eu defnyddio yn y practis.

Gwelsom nad oedd y staff yn llofnodi cynwysyddion gwaredu offer miniog adeg eu cydosod a'u cloi. Yn ogystal, nid oedd y cynwysyddion gwaredu offer miniog wedi'u hatodi'n sownd wrth wal pan fyddent yn cael eu defnyddio.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod gweithdrefnau clir ar gael ar gyfer defnyddio a gwaredu offer miniog a'u bod yn cael eu rhoi ar waith i ddiogelu'r staff a chontractwyr rheoli gwastraff.

Rheoli meddyginiaethau

Gwelsom fod polisi rheoli meddyginiaethau addas ar waith yn y practis. Roedd padiau presgripsiwn a meddyginiaethau yn cael eu cadw'n ddiogel. Roedd cofnodion yn cael eu cadw o'r holl feddyginiaethau a oedd yn cael eu harchebu, eu rhoi a'u gwaredu. Roedd tymheredd yr oergell storio meddyginiaethau yn cael ei wirio bob dydd ac roedd oergell wrth gefn ar gael pe byddai'r tymheredd y tu allan i'r ystod tymheredd dderbyniol.

Gwelsom fod y cyffuriau brys yn bodloni'r canllawiau cenedlaethol. Roedd yr eitemau brys yn cael eu gwirio'n rheolaidd. Fodd bynnag, nid oedd masg wyneb clir mewn maint 0 ar gael i'w ddefnyddio gyda'r bag hunan-chwyddo. Cafodd yr eitem ei harchebu gan y practis erbyn diwedd y dydd. Ceir rhagor o wybodaeth am y materion a nodwyd gennym, a'r camau a gymerwyd gan y gwasanaeth, yn Atodiad A.

Roedd y silindr ocsigen oedd ar waith hefyd yn llai na'r maint a oedd yn cael ei argymhell yn gyffredinol.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig gysylltu â'i gyflenwr ocsigen a sicrhau bod y maint gofynnol yn cael ei ddarparu.

Gwelsom dystiolaeth fod y staff wedi cwblhau hyfforddiant priodol i ymateb i argyfyngau meddygol a bod gweithdrefnau lleol addas ar waith. Roedd dau aelod o'r staff wedi cael hyfforddiant Cymorth Cyntaf a byddai'r rotas fel arfer yn sicrhau bod o leiaf un ohonynt ar y safle bob dydd. Roedd y dyddiadau ar yr holl eitemau yn y pecyn cymorth cyntaf yn gyfredol.

Diogelu plant ac oedolion

Roedd y staff yn glir o ran eu cyfrifoldebau pe baent yn nodi pryder diogelu mewn perthynas ag un o'u cleifion. Roedd polisi a gweithdrefn diogelu'r practis yn seiliedig ar Weithdrefnau Diogelu Cymru. Roedd unigolyn diogelu dynodedig wedi'i benodi ac roedd y staff wedi cwblhau hyfforddiant diogelu addas ar gyfer eu rolau.

Rheoli dyfeisiau a chyfarpar meddygol

Gwnaethom nodi bod y cyfarpar clinigol a oedd ar gael yn y practis yn cael ei wasanaethu'n briodol neu'n newydd. Roedd contractau ar waith gyda Chynghorydd Diogelu rhag Ymbelydredd a Pheiriannydd Ffiseg Feddygol. Fodd bynnag, roedd y ffeil diogelu rhag ymbelydredd yn anghyflawn, roedd angen coladu dogfennau ac roedd angen cwblhau gweithgareddau archwilio pellach er mwyn sicrhau ansawdd mewn modd cynhwysfawr o dan y Rheoliadau Ymbelydredd Ioneiddio (Cysylltiad Meddygol).

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau'r canlynol:

- Bod ffeil diogelu rhag ymbelydredd gynhwysfawr yn cael ei chadw, sy'n cynnwys dogfennau sy'n pennu deiliaid dyletswydd a rolau a chyfrifoldebau, dogfen risgiau a manteision i'r cleifion, cynlluniau ystafelloedd a rhaglenni sicrhau ansawdd mewnol
- Bod archwiliad blynyddol IR(ME)R Addysg a Gwellu Iechyd Cymru (AaGIC) yn cael ei roi ar waith.

Effeithiol

Gofal effeithiol

Dywedwyd wrthym fod canllawiau proffesiynol, rheoleiddiol a statudol yn cael eu dilyn wrth ddarparu gwasanaethau deintyddol. Roedd yr ymarferwyr deintyddol yn defnyddio cyfleoedd rhwydweithio anffurfiol i feincnodi ymarfer a cheisio cymorth a gwnaethom annog y practis i barhau i ddatblygu cysylltiadau o'r fath.

Roedd rhestrau gwirio'r Safonau Diogelwch Lleol ar gyfer Triniaethau Mewnwithiol yn cael eu defnyddio i helpu i atal achosion o dynnu'r dant anghywir.

Cofnodion cleifion

Gwnaethom edrych ar gofnodion cyfanswm o saith claf yn ystod ein harolygiad. Roedd cofnodion yn cael eu cadw ar ffurf electronig mewn system ddiogel ac ystyriwyd eu bod yn briodol ac yn unol â'r safonau ar y cyfan. Fodd bynnag, nodwyd rhai meysydd i'w gwella:

- Nid oedd copi o'r hanes meddygol cychwynnol, wedi'i lofnodi gan y deintydd a'r claf i'w weld yn gyffredinol
- Nid oedd cyngor ar ddefnyddio alcohol a thybaco na chyngor hybu iechyd mewn perthynas ag alcohol wedi'i ddogfennu'n llawn.
- Roedd angen dogfennu'r rheswm dros fynychu ar gyfer apwyntiadau rheolaidd. Roedd hyn yn cael ei nodi ar gyfer apwyntiadau brys.
- Nid oedd atgyfeiriadau mewnol at therapyddion deintyddol yn cynnwys manylion llawn anghenion y claf na'r cyfarwyddiadau o ran triniaethau.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod cofnodion cleifion yn gyflawn a'u bod yn cynnwys yr holl wybodaeth berthnasol yn unol â safonau a chanllawiau proffesiynol.

Roedd llwybrau clir ar waith ar gyfer atgyfeiriadau i mewn i'r practis ac allan o'r practis, gan gynnwys trefniadau dilynol priodol.

Effeithlon

Effeithlon

Dywedodd y staff wrthym fod diweddariadau a wnaed yn ddiweddar i gyfarpar a'r amrywiaeth o driniaethau a gynigir yn golygu bod modd darparu gwasanaeth mwy effeithlon ac amrywiol mewn ymateb i'r hyn yr oedd cleifion am ei gael. Roedd y broses o gyflwyno ap ar gyfer cynllunio rotas ac absenoldebau wedi helpu o ran y trefniadau cyflawni gweithredol.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Arweinyddiaeth

Llywodraethu ac arweinyddiaeth

Gwelsom fod strwythur rheoli clir ar waith yn y practis. Dim ond yn 2024 roedd y practis wedi agor o dan y perchnogion a'r arweinwyr deintyddol cyfredol, gan gymryd yr awenau gan bractis blaenorol a oedd wedi hen sefydlu. Dywedodd y staff wrthym eu bod yn teimlo'n gadarnhaol am y newidiadau diweddar a gyflwynwyd ac am yr amgylchedd a'r diwylliant a oedd yn cael ei fodelu gan y tîm rheoli.

Gwnaethom edrych ar gofnodion o gyfarfodydd staff a dywedwyd wrthym eu bod yn cael eu cynnal yn rheolaidd, yn ôl yr angen. Roedd amrywiaeth o bynciau gweithredol a phynciau datblygu tîm wedi cael eu trafod dros y misoedd diwethaf a chafodd y cyfarfod hefyd ei ddefnyddio fel fforwm ar gyfer hyfforddiant tîm. Roedd yr unigolion a oedd yn bresennol wedi llofnodi i gadarnhau nodiadau'r cyfarfod a gwnaethom awgrymu y dylid cynnwys dynodiad yr unigolion a oedd yn bresennol yn y nodiadau hefyd er eglurder er mwyn nodi rolau'r unigolion hynny, er enghraifft, partneriaid ariannol.

Dywedwyd wrthym fod y practis yn ystyried cwblhau adnodd cynaliadwyedd AaGIC. Gwnaethom awgrymu hefyd y gallai fod yn amserol cwblhau adnodd datblygu tîm yn y dyfodol agos nawr bod y practis newydd yn ymsefydlu.

Roedd y Datganiad o Ddiben yn darparu manylion priodol am y practis a'r staff. Fodd bynnag, nid oedd y broses rheoli fersiynau yn glir ar y Datganiad o Ddiben nac yn y polisiau a'r gweithdrefnau eraill a adolygwyd gennym. Gallai hyn olygu na fyddai staff a chleifion yn glir pa wybodaeth yw'r wybodaeth ddiweddaraf am y practis.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau y caiff y Datganiad o Ddiben a pholisiau a gweithdrefnau eraill eu diweddarau i gynnwys rhif y fersiwn, hanes diweddarau a'r dyddiad adolygu nesaf, y dyddiad cyhoeddi, a manylion y practis.

Y Gweithlu

Gweithlu medrus a galluog

Gwelsom gydberthnasau da ymysg y staff ac amgylchedd gweithio cadarnhaol yn y practis. Roedd polisi Chwythu'r Chwiban a Thanberfformiad cynhwysfawr ar waith a dywedodd y staff eu bod yn hyderus y gallent godi pryderon mewn modd priodol pe byddai angen iddynt wneud hynny.

Gwnaethom edrych ar bolisi recriwtio'r practis a ffeiliau pedwar aelod o'r staff i gadarnhau eu bod yn cydymffurfio â rhwymedigaethau proffesiynol a hyfforddiant gorfodol. Roedd y polisi recriwtio yn gynhwysfawr. Fodd bynnag, er gwaetha'r ffaith bod y polisi recriwtio yn amlinellu'r gofyniad i gael geirdaon cyn i staff ddechrau gweithio, yn aml nid oedd geirdaon wedi'u cynnwys yn ffeiliau'r staff.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau y ceir dau eirda fel mater o drefn ar gyfer aelodau newydd o staff ac y caiff asesiadau risg eu cwblhau ar gyfer cyflogaeth presennol y mae llai na dau eirda wedi'u cofnodi ar eu cyfer.

Roedd trefniadau ar waith i sicrhau bod rhwymedigaethau proffesiynol gweithwyr deintyddol proffesiynol cofrestredig yn cael eu cynnal. Roedd gan bob aelod perthnasol o'r staff gofrestrriad cyfredol â'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ac yswiriant indemniad proffesiynol. Roedd tystysgrifau priodol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd a phroses sgrinio iechyd a brechiadau hefyd wedi'u cofnodi.

Gwelsom fod prosesau sefydlu, arfarnu a datblygiad proffesiynol myfyriol priodol yn cael eu cwblhau ar gyfer pob aelod o'r staff, a oedd yn berthnasol i'w rôl. Roedd tystiolaeth fod yr holl hyfforddiant gorfodol sy'n ofynnol wedi'i gwblhau ar gael yn ffeiliau'r staff yr edrychwyd arnynt a dywedodd y staff wrthym eu bod hefyd yn cael cynnig cyfleoedd hyfforddiant ychwanegol er mwyn galluogi'r practis i ddatblygu ei arlwy o driniaethau.

Diwylliant

Ymgysylltu â phobl, adborth a dysgu

Gwelsom fod y practis yn casglu adborth yn rheolaidd drwy sgysiau anffurfiol â chleifion, arolygon ac adolygiadau ar-lein. Roedd arwydd 'Dywedoch chi, gwnaethom ni' wedi'i arddangos yn yr ardal aros a oedd yn rhoi gwybod am y camau roedd y practis wedi'u cymryd mewn ymateb i adborth am hygyrchedd apwyntiadau a'r adeilad. Dywedodd y staff wrthym ei bod hi'n bwysig iddynt gynnal cydberthynas dda â chleifion a gwrando ar eu syniadau.

Dywedwyd wrthym nad oedd unrhyw gwynion ffurfiol wedi dod i law. Fodd bynnag, roedd gweithdrefnau cwyno priodol ar waith a dywedodd y staff eu bod yn teimlo eu bod yn gallu ymdrin â phryderon ac uwchgyfeirio cwynion i'r rheolwr cofrestredig. Roedd trefniadau clir ar gyfer llunio adroddiadau mewn perthynas â'r Ddyletswydd Gonestrwydd hefyd ar waith gyda'r bwrdd iechyd ac roedd y staff wedi cael hyfforddiant priodol ar y ddyletswydd.

Gwybodaeth

Llywodraethu gwybodaeth a thechnoleg ddigidol

Gwelsom fod y practis yn rheoli ac yn diogelu gwybodaeth mewn ffyrdd a oedd yn cydymffurfio â deddfwriaeth diogelu data. Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn ymwybodol o ofynion llywodraethu gwybodaeth ond hefyd â phwy y dylid rhannu gwybodaeth pe bai angen ar gyfer diogelwch y cleifion a'r cyhoedd.

Dysgu, gwella ac ymchwil

Gweithgareddau gwella ansawdd

Gwelsom fod amrywiaeth o archwiliadau eisoes wedi'u cynnal yn ddiweddar i asesu ansawdd agweddau ar y gwasanaethau clinigol a gweithredol a oedd yn cael eu darparu. Fodd bynnag, nid oedd yr archwiliad Mynediad i Bobl Anabl diweddaraf wedi'i gynnal eto a byddai ei gwblhau yn galluogi'r practis i gadarnhau a oedd unrhyw addasiadau rhesymol a allai gael eu gwneud yn yr amgylchedd, yn ychwanegol at y rhai sydd eisoes ar waith.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod archwiliadau Mynediad i Bobl Anabl rheolaidd yn cael eu cynnal yn y practis a bod unrhyw addasiadau rhesymol ychwanegol a nodir yn sgil hyn yn cael eu rhoi ar waith.

Dull systemau cyfan

Gweithio mewn partneriaeth a datblygu

Dywedwyd wrthym fod trefniant clwstwr ar waith gyda phractisau deintyddol lleol eraill i sicrhau bod staff llanw brys ar gael i gleifion y tu allan i oriau a phe byddai aelod o staff yn sâl.

Dywedwyd wrthym fod y practis yn datblygu ei arlwy o driniaethau i gleifion gyda sesiynau mentora gan weithwyr deintyddol proffesiynol allanol yn helpu'r staff i feithrin sgiliau newydd.

Gwnaethom nodi fod y practis yn ymgysylltu mewn modd rhagweithiol â dangosfyrddau perfformiad a dangosfyrddau sicrhau ansawdd allanol ar gyfer darpariaeth y GIG a darpariaeth gwasanaethau preifat.

4. Y camau nesaf

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol yn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgysfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir sut yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r arolygiad.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar [wefan](#) AGIC.

Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a gafodd eu nodi a'u huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion	Sut gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut cafodd y pryder ei ddatrys
Nid yw'r Polisi ar Reoli Sylweddau Peryglus i lechyd wedi cael ei roi ar waith yn llawn.	Mae sylweddau peryglus yn hygyrch i gleifion.	Trafodwyd y mater â'r Rheolwr Cofrestredig.	Cafodd y Polisi ar Reoli Sylweddau Peryglus i lechyd ei roi ar waith yn llawn erbyn diwedd yr arolygiad.
Nid oedd masgiau wyneb clir ar gyfer y bag hunan-chwyddo mewn maint 0 ar gael fel rhan o'r cyfarpar meddygol brys.	Nid oedd cyfarpar ar gael a oedd yn addas ar gyfer ymateb i argyfyngau meddygol ar gyfer pob claf.	Trafodwyd y mater â'r Rheolwr Cofrestredig.	Archebodd y Rheolwr Cofrestredig fasg maint 0.

Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith

Gwasanaeth: Practis The Hawkins

Dyddiad yr arolygiad: 25 Tachwedd 2025

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd.

Risg/canfyddiad/mater		Yr hyn sydd angen ei wella	Safon / Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
1.	Ni nodwyd unrhyw bryderon uniongyrchol yn ystod yr arolygiad hwn.					

Atodiad C - Cynllun gwella

Gwasanaeth: Practis The Hawkins

Dyddiad yr arolygiad: 25 Tachwedd 2025

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Risg/canfyddiad/mater	Yr hyn sydd angen ei wella	Safon / Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
1.	Nid yw'r holl wybodaeth sydd ar gael i'r cyhoedd ei gweld yn adlewyrchu'r tîm deintyddol cyfredol yn gywir.	Cael gwared ar yr hen blac a sicrhau bod yr holl wybodaeth sydd ar gael i'r cyhoedd ei gweld yn adlewyrchu'r tîm deintyddol cyfredol yn gywir.	Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal (2023) - Gwybodaeth	Archebwyd arwydd newydd a chafwyd gwared ar yr hen arwydd yn unol â'r cais.	Jack Hawkins Erbyn 09/02/2026
2.	Nid oedd gorchudd ar ffenestr y ddeintyddfa ar y llawr gwaेलod a oedd yn golygu bod modd gweld cleifion a oedd yn cael triniaeth	Sicrhau preifatrwydd y cleifion yn y ddeintyddfa ar y llawr gwaेलod drwy wneud yn siŵr na all neb weld i mewn o'r tu allan	Rheoliad 15 (1) o Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) - Preifatrwydd ac Urddas	Rhoddwyd finyl preifatrwydd barugog ar y ffenestri i gyfateb i'r	Jack Hawkins Wedi'i gwblhau 13/01/2026

	o faes parcio'r staff y tu allan.	i'r adeilad yn ystod triniaethau.		deintyddfeydd eraill.		
3.	Nid oedd asesiad risg ar waith mewn perthynas â defnyddio'r math penodol o chwistrellau oedd yn cael eu defnyddio yn y practis.	Rhaid cwblhau asesiad risg ar gyfer y math o chwistrellau a ddefnyddir.	Safonau Ansawdd lechyd a Gofal (2023) - Diogel	Cwblhawyd asesiad risg	Tracy Hardwick	Wedi'i gwblhau 13/01/2026
4.	Nid oedd cynwysyddion gwaredu offer miniog yn cael eu llofnodi adeg eu cydosod a'u cloi nac wedi'u hatodi'n sownd wrth wal pan fyddent yn cael eu defnyddio.	Bydd gweithdrefnau clir ar gyfer defnyddio a gwaredu offer miniog ar gael ac yn cael eu rhoi ar waith.	Safonau Ansawdd lechyd a Gofal (2023) - Diogel	Cafodd y polisi rheoli heintiau ei ddiweddarau i gynnwys gwybodaeth yn nodi bod yn rhaid llofnodi pan fyddant yn cael eu cydosod a'u selio. Archebwyd offer miniog diogel ar gyfer y blychau offer	Tracy Hardwick	Erbyn 05/02/2026

				miniog er mwyn eu hatodi'n sownd wrth y wal.		
5.	Roedd y silindr ocsigen oedd ar waith yn llai na'r maint a ddisgwylir fel arfer.	Caiff silindr ocsigen o'r maint cywir ei drefnu.	Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal (2023) - Diogel; Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) (2017) - Rheoliad 31	Archebwyd silindr ychwanegol	Tracy Hardwick	Derbyniwyd ar 19/02/2026
6.	Roedd y ffeil diogelu rhag ymbelydredd yn anghyflawn.	Dylai'r ffeil diogelu rhag ymbelydredd gael ei chwblhau gan gynnwys dogfennau mewn perthynas â deiliaid dyletswydd a rolau a chyfrifoldebau, cynlluniau ystafelloedd a rhaglen sicrhau ansawdd fewnol	Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol) (2017) - Atodlen 2	Cwblhawyd y ffeil ymbelydredd a QAS. Darparwyd cynlluniau ystafelloedd.	Tracy Hardwick	26/11/2025
7.	Nid oedd archwiliad IR(ME)R blynyddol Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC) wedi'i gynnal.	Caiff archwiliad IR(ME)R blynyddol Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC) ei gynnal.	Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad	Mae'r archwiliad IR(ME)R wedi'i gwblhau'n llawn.	Tracy Hardwick	Cwblhawyd 15 Rhagfyr 2025

			Meddygol) (2017) - Atodlen 2			
8.	Mae angen gwella'r arferion cadw cofnodion.	Rhaid i'r cofnodion fod yn gyflawn a chynnwys yr holl wybodaeth berthnasol yn unol â safonau a chanllawiau proffesiynol	Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal (2023) - Yn Canolbwyntio ar yr Unigolyn	Cafodd y templedi eu haddasu i gynnwys y manylion gofynnol	Jack Hawkins	Eisoes wedi'i gwblhau
9.	Roedd y broses rheoli fersiynau yn aneglur ar y Datganiad o Ddiben ac ar bolisiau a gweithdrefnau eraill.	Bydd y Datganiad o Ddiben a pholisiau a gweithdrefnau eraill yn cynnwys rhif y fersiwn, hanes diweddarau, y dyddiad adolygu nesaf, dyddiad cyhoeddi, a manylion y practis.	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) (2017) - Rheoliad 7	Cafodd pob polisi ei ddiweddarau i adlewyrchu manylion y fersiynau a gwybodaeth berthnasol arall.	Tracy Hardwick	Cwblhawyd 15 Rhagfyr 2025
10.	Ni cheir geirdaon fel mater o drefn ar gyfer aelodau newydd o staff.	Rhaid cael dau eirida fel mater o drefn ar gyfer aelodau newydd o staff a chwblhau asesiadau risg ar gyfer staff presennol y mae llai na dau eirida wedi'u cynnwys yn eu ffeiliau staff.	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) (2017) - Rheoliad 18(2)(e) a Rhan 1(3) o Atodlen 3	Cafodd y cynllun recriwtio ei ddiwygio i gynnwys dau eirida. Cynhaliwyd asesiadau risg ar staff presennol a	Tracy Hardwick	Wedi'i gwblhau 12/01/2026

				rhoddwyd yr asesiadau hynny yn eu ffeiliau.		
11.	Roedd yr archwiliad Mynediad i Bobl Anabl wedi dirwyn i ben.	Caiff archwiliadau Mynediad i Bobl Anabl rheolaidd eu cynnal a chaiff unrhyw addasiadau rhesymol ychwanegol a nodir eu rhoi ar waith.	Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal (2023) - Yn Canolbwyntio ar yr Unigolyn	Cafodd pob un ei ddiweddarau Nid oedd unrhyw addasiadau i'w gwneud.	Tracy Hardwick	Wedi'i gwblhau 12/01/2026

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (priflythrennau): TRACY HARDWICK

Teitl swydd: RHEOLWR Y PRACTIS

Dyddiad: 20/01/2026